Cofnodion Cyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd trwy gynadledda **ddydd Gwener, 31 Mawrth 2023**

**YN BRESENNOL:**
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorwyr Keith Evans, a John Roberts

Yn cynrychioli Cymdeithas Athrawon: Miss Joyce Howells (Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Mrs Anna Uruska- – Yr Eglwys Gatholig,

Aelodau Cyfetholedig: Mr Lyndon Lloyd MBE

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd: Mrs Non Jones McEvoy

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion Gwasanaethau Ysgolion, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(1:30pm- 3:10pm)

1 **Gweddi**
Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Cynghorydd Keith Evans yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ifan Davies, Keith Henson, Ceris Jones ynghyd â Mrs Alwen Roberts, yr Athro Densil Morgan, y Parch Mark Ansell, y Parch Wyn Thomas a'r Athro Catrin Williams am na allent fynychu'r cyfarfod.

3 **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
CYTUNWYD cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022 fel rhai cywir.

**Materion sy'n codi**
Dim.

4 **Croeso**
Croesawodd y Cadeirydd Mr Lyndon Lloyd MBE a oedd wedi'i benodi'n Aelod Lleyg, Mrs Noha Haroun a oedd yn cynrychioli'r enwad Islam a Mrs Non Jones McEvoy a oedd yn cynrychioli'r Sector Cynradd i'r cyfarfod.

Dywedodd y Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion Gwasanaethau Ysgolion ei bod wedi cysylltu â chynrychiolydd y Crynwyr, ond hyd yma nid oedd ateb wedi dod i law.

**5 Gohebiaeth**

Cafwyd llythyr oddi wrth Mr Colin Patridge a oedd yn cynrychioli'r gred Ddyneiddiol, cytunwyd i ofyn am fanyleb ei berson er mwyn ystyried ei gais.

**6 Cyflwyniad am addysgu Addysg Grefyddol a Chrefydd Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Uwchradd Aberaeron gan Nia Wyn Jones , Pennaeth Adran AG/CGM**

Croesawodd y Cadeirydd Miss Nia Wyn Jones, Pennaeth Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ysgol Uwchradd Aberaeron i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar Addysg Grefyddol/addysgu Gwerthoedd a Moeseg.

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, diolchodd y Cadeirydd a’r holl Aelodau i Miss Jones am fynychu ac am roi cyflwyniad llawn gwybodaeth.
tation.

**7 Diweddariad cenedlaethol**

Rhoddwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurhad i CCYSAGauC ynghylch cydfodolaeth CYS (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) a CYSAG, (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.), sef, bod angen i’r ddau gorff hyn fod yn eu lle tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2025 sy’n dechrau ym mis Medi, sy’n dod i ben yn haf 2026. Wedi hynny, byddai CYSAG yn cael ei ddiddymu, a byddai CYS yn parhau
- Adroddiadau Blynyddol CYSAG
- Cyfathrebu trwy DYSG
- Diweddariadau ac addasiadau i HWB
- Ymholiad gan yr Awdurdod Lleol
- Adolygiad barnwrol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Nodi cymorth ac adnoddau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Adnodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
- Sicrhau Ansawdd maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

**8 Cais am eitemau i gyfarfod tymor yr haf**

Rhoddwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurhad i CCYSAGauC ynghylch cydfodolaeth CYS (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) a CYSAG, (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.), sef, bod angen i’r ddau gorff hyn fod yn eu lle tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2025 sy’n dechrau ym mis Medi, sy’n dod i ben yn haf 2026. Wedi hynny, byddai CYSAG yn cael ei ddiddymu, a byddai CYS yn parhau
- Adroddiadau Blynyddol CYSAG
- Cyfathrebu trwy DYSG
- Diweddariadau ac addasiadau i HWB
- Ymholiad gan yr Awdurdod Lleol
- Adolygiad barnwrol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Nodi cymorth ac adnoddau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Adnodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
- Sicrhau Ansawdd maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

**9 Unrhyw Fater Arall**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________